

Dydd Iau, Rhagfyr 15:

2.00 p.m. Cyfarfod Carolau Parti Bytholwyrdd.

Dydd Sul, Rhagfyr 18

Bethlehem:

2.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Carmel:

4.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Dyffryn Ogwen:

7.00 p.m. Gwasanaeth Carolau i'r gymuned yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, gyda Chôr Meibion y Penrhyn, Côr y Dyffryn, Corau Ysgol Dyffryn Ogwen ac unigolion. Casgliad at achosion dyngarol.

Deiniolen:

3.30 p.m. Oedfa Nadolig.

Capel Coch:

5.00 p.m. Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul.

Dydd Nadolig

Bydd oedfaon yng Ngharmel am 9.00 a.m. ac yng Nghapel Coch am 10.00 a.m.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 11: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 11: Gwasanaethir

Y mis nesaf - Deiniolen

Rhagfyr 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 11

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Rhagfyr 18

3.30 p.m. - Oedfa Nadolig

am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol Undebol yn Capel Coch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 11: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 11: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 5: Te Nadolig yng Nghaffi Coed y Brenin.

Nos Wener, Rhagfyr 9: Dwylo Prysyr am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 11: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Rhagfyr 5: Cyfarfod Gwedd yn 'Cartref', Caethro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 4

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Rhagfyr 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Undebol "Naw Llith a Charol" yn Capel Coch

Rhagfyr 18

10.00 a.m. -

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul



Dylai meysydd parcio Gwynedd fod yn llawnach nag arfer yr wythnosau nesaf wedi i'r cyngor sir gyhoeddi na fydd rhaid talu am barcio yn ei feysydd parcio y penwythnos hwn a'r nesaf. Mae hynny'n ychwanegol at y cyfnod arferol o barcio am ddim cyn y Nadolig (rhwng Rhagfyr 15 a 27 eleni).

Gobaith Cyngor Gwynedd, fel pob cyngor arall sy'n gwneud peth tebyg, yw y bydd rhagor o bobl yn ymweld â threfi a phentrefi'r sir i wneud eu siopa 'Dolig o gael parcio am ddim. Mae'n sicr fod busnesau lleol a siopwyr fel ei gilydd yn croesawu'r cyhoeddiad. Mentraf ddweud y bydd maes parcio Doc Fictoria yng Nghaernarfon yn llawn am y tro cyntaf ers wythnosau! Mae hwnnw wedi bod fwy na hanner gwag ers i'r Cyngor ddechrau codi tâl yno'n gynharach eleni. Does ond angen sylwi ar y newid a fu yn y maes parcio hwnnw i sylweddoli fod pobl yn hoffi rhywbeth am ddim! Ac efo'r holl wario dros y Nadolig, mae cael rhywbeth am ddim yn dod yn fwy pwysig.

Ydi, efo'r holl wario, mae'r Nadolig wedi mynd yn ddud. Nid mod i'n cwyno nac yn gwrthwynebu'r gwario hwnnw, cofiwch. Fel y rhan fwyaf o bobl, rwy'n mwynhau derbyn a rhoi anrhegion; ac rwyf wrth fy modd efo'r goeden a'r addurniadau a'r bwydydd a'r teganau a'r llyfrau sy'n llyncu ein harian yr adeg yma o'r flwyddyn. Ond mae yna rywbeth eironig ynghylch yr holl wario o gofio mai dathlu a wnawn

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 708: Dydd Sul, 04 Rhagfyr, 2016

Parcio am ddim

ar yr ŵyl hon rodd fwyaf gwerthfawr Duw i ni, a honno'n rhodd a gawsom yn rhad ac am ddim.

Mi fydd yn braf cael parcio'n ddi-dâl dros gyfnod y Nadolig. Ond nid bob amser y bydd pobl yn gwerthfawrogi cael pethau am ddim; ar brydiau, mae'n well gan bobl dalu. Methiant fu ambell i gwrs neu gyngerdd di-dâl am fod pobl wedi meddwl mai pethau go sâl oeddent am eu bod am ddim. Caed enghreifftiau o gynnig nwyddau am ddim i bobl, a neb yn eu hawilo; ac eto, yr un nwyddau'n cael eu prynu pan godwyd tâl amdanyn nhw.

Bendithion sy'n cael eu cynnig yn rhad ac am ddim yw bendithion yr Efengyl. Nid oes rhaid talu amdanant; nid oes modd eu prynu. Maddeuant; cariad a chymod â Duw; bywyd newydd, a gras i'w fyw; cysur mewn adfyd; gobaith a'r bywyd tragwyddol; rhoddion rhad yw'r cyfan. Ni fedrwn eu haeddu. Nid yw eu prynu yn opsiwn. Yr unig ffordd y medrwn feddiannu'r bendithion hyn yw eu derbyn fel rhoddion hael Duw i ni. Ac er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni sylweddoli ein trueni a'n tlodi, a chydabod na fedrwn ni fyth fod yn deilwng ohonyn nhw. A chyn y derbyniwn ni'r bendithion hyn, mae'n rhaid gofyn amdanyn nhw. Oherwydd y sawl sy'n eu ceisio sy'n eu cael.

Rhywbeth i'w groesawu a'i fwynhau yw cynnig rhad Duw; rhywbeth i'w dderbyn ac i ddiolch amdano, yn nhymor yr Adfent fel pob tymor arall.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwyn ei fyd y sawl sy'n
ystyried y tlawd. Bydd yr
ARGLWYDD yn ei waredu
yn nydd adfyd; bydd yr
ARGLWYDD yn ei warchod ac yn ei gadw'n fyw; bydd
yn rhoi iddo ddedwyddwch yn y tir, ac ni
rydd mohono i fympwy ei elynion (Salm
41:1-2).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith ac yna
am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint
Roberts. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r
gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00
o'r gloch gan y Parchg Elwyn Richards.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Angladd

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs
Anne Evans, 17 Ciltrefnus, Gerlan yng
Nghapel Carmel fore Mercher diwethaf,
Tachwedd 30. Gwasanaethwyd gan y
Gweinidog a'r Parchg Dafydd Coetmor
Williams. Mrs Helen Williams oedd yr
organyddes.

Bu farw Mrs Anne Evans yn Ysbyty
Gwynedd ddydd Mercher, Tachwedd 23,
yn 78 mlwydd oed.

Cafodd ei magu yn Rachub, ac yn dilyn
eu priodas, fe gafodd 55 o flynyddoedd
priodasol yn ei chartref yn Gerlan. Yn
naturiol, cydymdeimlwn o'r newydd â'i
phriod Arfon ac â'i phlant Carolyn, Ian a
Paula, a hefyd ei chwaer Mair a'r teulu
cyfan yn eu colled. Yr oedd yn wraig,
mam, nain a hen nain arbennig, a'i gofal
am ei theulu yn fawr ac yn llawn cariad.
Yr oedd yn gymdoges ffeind a da, a bydd
colled fawr ar ei hól ymhlith ei ffrindiau
a'i chymdogion. Roedd yn hael ei
chroeso, ac yn annwyl a chyfeillgar.

Cafodd gystudd blin y misoedd diwethaf;
bu yn yr ysbyty am rai wythnosau, ond
cafodd ei dymuniad i ddod adref, a chael
gofal arbennig yr wythnosau diwethaf
hyn.

Carolau

Cynhelir Cyfarfod Carolau yng nghwmni
Carys Edwards a pharti Bytholwyrdd yn
Capel Coch am 2.00 o'r gloch bawn
Iau, Rhagfyr 15. Codir tâl mynediad o
£2.50 (yn cynnwys te a mins pei) a bydd
yr elw at Gyfeillion Plas Pengwaith.
Croeso cynnes.

Cyfraniadau Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am
2016 yn cau ar Ragfyr 31. Bydd unrhyw
gyfraniad a dderbynnir wedi'r dyddiad
hwnnw yn cael ei nodi yng nghyfrifon
2017. Diolch am bob cydweithrediad yn
hyn o beth

Efe

Diolch i Andrew a Morgan am arwain y
cyfarfod a gynhaliwyd i'r 'ieuenctid hŷn'
yn Yr Institiwt, Llanrug. Mae pobl ifanc
o Lanberis, Llanrug a'r Waunfawr efo'i
gilydd yn y cyfarfod hwn.

Teams4U

Un gair olaf am eleni am apêl y bocsys
esgidiau. Daeth neges acw ddoe oddi
wrth Pauline Owen, trefnydd Teams4U
yng Ngogledd-orllewin Cymru, i ddweud
fod dros 7,650 o focsyst wedi eu derbyn
yn y ganolfan gasglu ym Mae Colwyn.
Fe'u hanfonwyd wedyn i'r prif ganolfan
yn Wrecsam, a fore Sadwrn., Tachwedd
26, fe gychwynnodd lori o Wrecsam i'w
cludo i Romania. Bydd dau aelod o'r tîm
a fu'n trefnu'r casgliad ym Mae Colwyn
yn teithio i Romania yr wythnos nesaf i
helpu gyda'r gwaith o'u dosbarthu i blant
a theuluoedd yno.

Anfonodd Teams4U dros 31,000 o focsyst
eleni i Romania a Belarus. Roedd y lori
olaf yn cychwyn o Wrecsam i Belarus
fore ddoe.

Diolch eto i bawb a gyfrannodd.

Ffair Nadolig Bethlehem

Nos Fercher diwethaf, cynhaliwyd Ffair
Nadolig Capel Bethlehem, Talybont yn y
festri. Diolch yn fawr i bawb am eu
cefnogaeth unwaith eto.

DCDC

Bydd rhaglen Nadolig 'Dechrau Canu
Dechrau Canmol' yn cael ei recordio yn
Eglwys Sant Padarn, Llanberis HENO,
nos Sul, Rhagfyr 4. Caiff ei darlledu ar
S4C Ddydd Nadolig.

Mae trefnwyr y rhaglen yn apelio am
eich cefnogaeth er mwyn sicrhau eglwys
lawn os y bosibl.

Gofynnir i bawb gyrraedd mewn da bryd;
agorir drysau'r Eglwys am 6.30 o'r gloch
a bwriedir cychwyn recordio am 7.00 o'r
gloch.

Cefin Roberts, Bangor fydd yn arwain y
canu.

Y Gymdeithas

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn
Neiniolen nos Lun diwethaf.

Roedd yn braf cael cwmni Annette Bryn
Parri unwaith eto, a'r tro hwn cawsom
ganddi ganeuon Nadoligaidd o fyd y
ffilmiau ynghyd â charolau poblogaidd,
hen a newydd. Roedd yn noson ddifyr
iawn, a'r gynulleidfa yn gwneud ei gorau
i gofio teitl ambell i gân ac enw'r sawl
a'i canodd wrth i Annette ganu'r piano.

Diolchwyd iddi gan Mr Brian Price.

Y Nadolig

Llanberis:
Nos Sul, Rhagfyr 11:
5.00 p.m. Gwasanaeth Naw Llith a
Charol Undebol yn Capel Coch.